CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
2/11/2015

PRESENNOL: Is-gadeirydd R G Parry, Mrs E Jones,Ms M Williams, Mrs S Jones, Mrs H Williams,Mrs S Roberts,Ms M E Evans,Mr B Veevers.

PRESENT: Vice Chairman R G Parry, Mrs E Jones,Ms M Williams, Mrs S Jones, Mrs H Williams,Mrs S Roberts,Ms M E Evans,Mr B Veevers.

YMDDIHEURIADAU: Derbyniwyd ymddiheuriad am eu habsenoldeb oddi wrth Mrs Catherine Lloyd a Mr Gareth Williams.

APOLOGIES: Apologies for their absence was received from Mrs Catherine Lloyd and Mr Gareth Williams.

CYFLWYNIAD: Croesawyd Mr Brian Jones, Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn, Cyngor Sir Ynys Môn a Ms Luned Edwards i'r cyfarfod. Cafwyd cyflwyniad ar y strategaeth ac ar y cynllun "Adeiladu Cymunedau" gan Mr B Jones a Ms Edwards. Diolchodd yr Is gadeirydd i'r ddau, a gofynnwyd i'r Clerc anfon at Ms Edwards yr wybodaeth am sefydliadau lleol a ofynnwyd amdani.

PRESENTATION: Mr Brian Jones, Isle of Anglesey County Council's Co-ordinator Older People's Strategy and Ms Luned Edwards were welcomed to the meeting. A presentation on the strategy and the "Building Communities" scheme was given by Mr B Jones and Ms Edwards. The Vice Chairman thanked both, and asked th Clerk to supply the information requested regarding local organisations to Ms Edwards.

COFNODION: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12/10/215 yn gofnod cywir.

MINUTES: Minutes of the meeting held on 12/10/1015 were accepted as true minutes.

MATERION YN CODI:

1. Cloc y pentref. Roedd Mr N Williams, gofalwr y cloc yn bresennol yn y cyfarfod a mynegodd ei bryderon am ddŵr yn dod i mewn i'r cloc. Penderfynwyd fod Mr Williams i ofyn i Mr Malcolm Jones trydanwr o'r pentref roi ei farn ar y sefyllfa. Diolchodd yr is-gadeirydd i Mr Williams am ei bresenoldeb.

MATTERS ARISING:

1. Village Clock. Mr N Williams, the caretaker, was present at the meeting and expressed his concerns regarding the water entering the clock. It was decided that Mr Williams seek the advice of Mr Malcolm Jones, a local electrician on the situation. The vice chairman thanked Mr Williams for attending the meeting.

2. Wal derfyn eiddo Mrs Bown. O ganlyniad i amgylchiadau anrhagweledig nid oedd y gwaith ar drwsio'r wal wedi'i gychwyn. Cadarnhaodd Mr Veevers y byddai'r gwaith yn cychwyn yn fuan iawn.

2. Boundary wall at Mrs Bown's property. Due to unforeseen circumstances, **t**he work of repairing the wall had not been commenced. Mr Veevers confirmed that work on the wall would commence shortly.

3. Gordyfiant gwrychoedd. Dywedodd Mr R G Parry fod y Cyngor Sir wedi ysgrifennu at y tirfeddianwyr

3. Overgrown hedges. Mr R G Parry confirmed that the County Council had written to the landowners regarding the

ynghylch y gordyfiant.

4. Rhoddion pentrefol: Penderfynwyd fel a ganlyn: **Eglwys St.Morhaearn £100** tuag at gynnal a chadw'r fynwent; **£100 i Gapel Jerusalem** tuag at gynnal a chadw'r fynwent; **£100 i Ysgol y Ffridd; £50 i'r Ysgol Feithrin.** Penderfynwyd peidio gofyn am ad-daliad rhent y cae pêl droed i'r pwyllgor peldroed, ond yn hytrach ei roi fel rhodd i'r Clwb.

5. Sul y Coffa. Cadarnhad o'u presenoldeb wedi'i dderbyn oddi wrth Lu Awyr y Fali, yr Heddlu a'r Parchedig Emyr Rowlands.. Y Clerc eisoes wedi dosbarthu'r torchau pabi.

GOHEBIAETH:

1. Cyngor Sir Ynys Môn:

(a). Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol: Gwybodaeth am Ffair Swyddi Carchar Gogledd Cymru yn Wrecsam ar 7/11/2015.

(b) Pennaeth Dysgu: Gwybodaeth am ymgynghoriad ar opsiynau a allai drawsnewid y gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus a gwneud arbedion.

(c) Adran Gynllunio. (i) **Rhybudd derbyn cais** llawn i godi adeilad mynedfa newydd ynghyd ag ymestyn y pafiliwn yn Cae Sioe Môn, Gwalchmai.

(ii) Rhybudd penderfyniad fel a ganlyn: Gwrthodwyd cais amlinellol ar gyfer codi annedd sydd yn cynnwys manylion llawn am fynedfa i gerbydau ar dir gyferbyn â Plas Ceiri, Gwalchmai.

2. Mr D E Parry, Rhos Felin, Gwalchmai. Cais i barhau â'r gwaith o gynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus. Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r cais.

3. Llywodraeth Cymru. Gwybodaeth am gyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yng Nghaergybi ar 12/11/2015 gan Carwyn

overgrown hedges.

4. Local donations. It was decided as follows: £100 to St Morhaearn Church towards the upkeep of the cemetery; £100 to Jerusalem Chapel towards the upkeep of the cemetery; £100 to Ysgol y Ffridd; £50 to the Nursery School. It was decided not to request repayment of the football field rent from the football committee, but to treat it as a donation to the Club.

5. Remembrance Sunday. Confirmation of their attendance had been received from RAF Valley, the Police, and the Rev. Emyr Rowlands. The wreaths had already been distributed by the Clerk.

CORRESPONDENCE:

1. Isle of Anglesey County Council:

(a) Economic and Community Regeneration Service. Information regarding North Wales Prison jobs fair at Wrexham on 7/11/2015.

(b) Head of Learning: Information regarding consultation on options which may transform the public library service and make budget savings.

(c) Planning department: Notice ot full application for the erection of a new entrance building together with extension to the pavilion at Anglesey Showground Gwalchmai.

(ii) Notice of decision as follows: Refusal to Outline application for the erection of a dwelling together with full details of the vehicular access on land opposite Plas Ceiri, Gwalchmai.

2. Mr D E Parry, Rhos Felin, Gwalchmai. Application to continue with the work of maintainingg the public footpaths. It was unanimously decided to approve the application.

3. Welsh Government. Information regarding a public meeting to be held in Holyhead on 12/11/2015.by Wales' First

Jones, Prif Weinidog Cymru

4. Cangen Môn Un Llais Cymru. Grid Cenedlaethol. Ymgynghoriad - ymateb cynghorau. Derbyniwyd pwyntiau crynhoi a chamau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23/10/2015, pan oedd y Cadeirydd Mrs Catherine Lloyd a Mrs Edna Jones yn bresennol. Cafwyd adroddiad gan Mrs Jones ar gynnwys y cyfarfod.

5. Un Llais Cymru:
(a) Gwybodaeth am ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) Dyddiad cau 18/1/2016.
(b) Llythyr yn rhoi gwybod y bydd Un Llais Cymru yn cynrychioli'r sector yn y Gynhadledd ar Baratoi ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y 26/11/205.

ARIANNOL:
1. Derbyniwyd anfonebau fel a ganlyn**: Dewi Parry £730.00** am gynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus; **N Power £29.55** cyflenwad trydan i'r cloc 1/6/23015 I 31/10/205; **Cyngor Sir Ynys Môn £289.17** rhent cae peldroed 12/10/2015 I 11/10/2016; **Atebion Cyfrifiaduron Môn £240.00** gwasanaethau gwefan y Cyngor mis Hydref 2015 i fis Hydref 2017; **British Legion £119.00** am 7 torch pabi; **Parch Emyr Rowlands £25.00** tâl am wasanaethu yn Sul y Coffa; **Cyflog a PAYE y Clerc** am 3ydd chwarter y flwyddyn **£470.00**

UNRHYW FATER ARALL:
1. Hen Gae Chwarae Dafarn Groes. Dywedodd y Clerc ei bod yn amser adnewyddu'r les ar y cae uchod, a bod y deilydd presennol am barhau â'r brydles. Penderfynwyd yn unfrydol i adnewyddu'r brydles am gyfnod pellach o 11 mis.

Minister Carwyn Jones

4. One Voice Wales, Anglesey Branch. National Grid. Consultation – council's response. Synopsis and action points from the meeting held on 23/10/2015 were received. The Chairman Mrs Catherine Lloyd and Mrs Edna Jones had attended that meeting and Mrs Jones gave an outline of the meeting's content.

5. One Voice Wales.
(a) Information regarding consultation on the Public Services Ombudsman (Wales) Bill. Closing date 18/1/2016.

(b) Letter informing that One Voice Wales will be representing the sector at the Preparing for Public Services Boards conference on 26/11/2015.

FINANCIAL:
1. Invoices received as follows: **Dewi Parry £730.00** maintenance of the public footpaths; **N Power £29.55** electricity supply to the clock 1/6/2015 to 31/10/2015; **Isle of Anglesey County Council £289.17** football field rent 12/10/2015 to 11/10/2016; **Anglesey Computer Solutions £240.00 Council's website services** October 2015 to October 2017; **British Legion £119.00** for 7 poppy wreaths; **Rev.Emyr Rowlands £250.00** for conducting the Remembrance Day service; **Clerk's salary and PAYE** for the third quarter of the year **£470.00.**

ANY OTHER MATTER:
1. The Old Playing field at Dafarn Groes. The Clerk stated that the under lease on the above field was due for renewal and that the present holder was keen to continue. It was unanimously decided that the under lease be renewed for a further period of 11 months.

2. Awgrymodd Mrs Sharon Jones petai'r heddlu ddim yn bresennol yn Sul y Coffa y dylid cael trefnydd ar gyfer y daith gerdded o'r Capel tuag at y cloc. Trafodwyd hyn, ond penderfynwyd gan mai oedolion neu blant gyda'u rhieni fyddai'n cerdded o'r capel tuag at y cloc nad oedd angen trefnydd.

2. Mrs Sharon Jones suggested that should the Police be unable to be present at the Remembrance Service that a marshall should be appointed for the walk from the chapel to the clock. This was discussed, and it was decided that as it would only be adults or children accompanied by their parents walking from the chapel to the clock that it wasn't necessary to appoint a marshall.

CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 4ydd Ionawr 2016 am 7pm yng Nghanolfan yr Henoed.

NEXT MEETING: The next meeting will be held on Monday 4th January 2016 at 7pm at the Pensioner's Hall.